



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Melbourne House

**Melbourne House
22-24
Carmarthen Road
Llanelli
SA14 6SP**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/02/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Melbourne House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Melbourne House Care Home Limited
Lleodd cofrestredig	23
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	16/06/2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ac yn cynnwys y person a/neu ei gynrychiolydd, ond gallent ganolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn. Mae'r bobl, perthnasau, a gweithiwr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn canmol y gweithwyr gofal a thîm rheoli'r gwasanaeth.

Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol ac uwch-ofalwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n defnyddio'r rhain ac amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd i sicrhau bod ganddo drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae Melbourne House yn cynnig amgylchedd croesawgar a glân i'r bobl. Mae'r décor a'r dodrefn mewnol mewn cyflwr da, ond gellid gwella'r ystafelloedd ymolchi cymunedol a'r arwyddion i gynnig profiad ymolchi mwy pleserus a chartrefol i'r bobl a'u helpu i ddod o hyd i'r cyfleusterau cymunedol yn well.

Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'r gwely pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r rheolwyr yn gofyn am eu barn yn benodol yn ystod cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd â phreswylwyr unigol, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn gwneud hynny yn ystod ei ymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg ac yn cael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac mae ganddynt feddwl uchel o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth dda am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwyllo a hyfforddi da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac maent yn cael eu cefnogi gan bolisiâu sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gynnal eu llesiant. Fodd bynnag, gellid gwella'r arwyddion mewnol mewn rhai mannau er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'r cyfleusterau cymunedol yn well.

Gofal a Chymorth

Caiff anghenion a dewisiadau unigol y bobl eu cydnabod a'u deall. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus am hanesion personol yr unigolion, am eu hanghenion gofal ac am eu dewisiadau dyddiol. Mae'r cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am yr unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth. Fodd bynnag, gallai'r wybodaeth ganolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn mewn manau. Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Caiff asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd hefyd. Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant yn dewis gwneud hynny, ac mae amrywiaeth o opsiynau ar gael o ran prydau bwyd y gall y bobl eu bwyta yn yr ystafell fwyta gymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym ar ôl iddynt fwyta eu cinio, *"it was very tasty, I decided to have chips instead of mash today"*, *"It was a lovely meal, I really enjoyed"* a *"The food is very good here"*.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n garedig â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg gan mai dyma eu dewis iaith. Mae gweithgareddau yn chwarae rhan yn arferion y bobl. Caiff unigolion eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau. Caiff lluniau o'r bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau eu harddangos yn yr ardaloedd cymunedol. Ceir cysylltiadau da ag ysgol gynradd leol sy'n ymweld yn rheolaidd, a dywedodd un person wrthym *"it's a treat when the children visit, they are lovely"*. Daeth yr Unigolyn Cyfrifol hefyd â'i gi bach i ymweld â'r gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yn amlwg bod yr ymweliad wedi codi hwyliau'r bobl gan eu bod yn gwenu, yn sgwrsio ac yn mwytho'r ci bach. Dywedodd un person wrthym *"she is adorable"*.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Melbourne House a'u bod yn gallu codi pryderon os oes angen iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym, *"I have no complaints. I would speak to [manager] if I did have"* ac *"I know I can speak to one of the carers or the manager if I need to"*. Mae gweithdrefn gwyno'r gwasanaeth ar gael i'r bobl.

Siaradodd perthynas a gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn gadarnhaol am y gwasanaeth, gan ddweud wrthym, *"I am very happy with the home the care is great. My relative greatly enjoys the food and speaks highly of the carers"*. *I have no concerns, but I know I can speak to the staff or the manager if I need to"*. *"I really enjoy coming here, it is one of the best homes in the area. Carers are very kind to residents; the residents look clean and well presented. The manager and seniors follow instructions well. We have good links with manager and RI"*.

Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd hynny. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Mae larymau argyfwng yn hawdd i'r bobl eu cyrraedd i'w defnyddio ac mae'r staff yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r ystafelloedd gwely a'r coridorau wedi'u haddurno'n ddymunol ac mae lluniau a gwaith celf yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, dylid ystyried yr arwyddion ar ffurf lluniau a'r arwyddion dwyieithog a ddefnyddir, a sut y gallant helpu'r bobl i ddod o hyd i'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael iddynt yn well. Mae'r tair ardal fyw gymunedol yn rhoi dewis i'r bobl o ran ble yr hoffent gymdeithasu â'u ffrindiau a'u hymwelwyr. Dywedodd un person wrthym *"all the ladies in this room are my friends"*.

Cafodd gwaith ei wneud er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fwy croesawgar i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau. Fodd bynnag, gellid ystyried sut y gellir gwella'r ystafelloedd ymolchi ymhellach er mwyn gwneud iddynt edrych a theimlo'n fwy cartrefol.

Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli ag eitemau, dodrefn, lluniau, ac ornamentau yn unol â dewisiadau'r unigolyn. Mae lluniau a delweddau ar ddrysau'r ystafelloedd gwely sy'n arddangos hobiau, diddordebau a swyddi'r unigolyn, a'r ardal y mae'n dod ohoni. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r wybodaeth a oedd yn y cofnodion gofal y gwnaethom eu darllen.

Mae rhaglen adnewyddu ac ailaddurno barhaus ar waith. Mae'r ardd gymunedol yn gymharol fach ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau ar waith i greu gardd ddiogel y tu ôl i'r eiddo.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'r adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gan yr Unigolyn Cyfrifol er mwyn annog y staff i roi adborth ac i gofnodi'r adborth hwnnw yn well. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd, a chânt eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu Gwelliant Parhaus.

Mae prosesau recriwtio a dethol priodol ar waith. Caiff y cliriadau a'r gwiriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd wedi'u dogfennu, ac arfarniad blynyddol. Mae gan y gweithwyr gofal barch mawr tuag at y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, gan ddweud wrthym: *“[Manager] and [RI] are the best I have worked for, they are very approachable and kind”* a *“[Manager] and [RI] excellent, they are really helpful”*.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a hyfforddedig sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth am y bobl y maent yn eu cefnogi, eu dewisiadau gofal a'u hanghenion. Mae'r staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant a chaiff hyn ei ategu gan y matrices hyfforddiant ac adborth gan y staff.

Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r staff yn symud ac yn codi a chario'r bobl yn ddiogel, ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu hystyried.

Mae polisiau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 20/03/2024